# Cyngor Partneriaeth Cymru - 24 Tachwedd 2022

## 9.40-11.40 drwy MSTeams

| |
|---|
| **Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**<br><br>Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol |

Agorodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y cyfarfod drwy groesawu'r holl aelodau a dywedodd fod yr ysgrifenyddiaeth wedi nodi'r ymddiheuriadau.

Dywedodd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (6 Gorffennaf) wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau, ond ni chafwyd rhai. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf naill ai'n gyflawn neu mewn llaw.

Cyn dechrau ar eitemau'r agenda, rhoddodd y Gweinidog ddiweddariadau byr i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol**

Nododd y Gweinidog, yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod mis Gorffennaf, mai ei bwriad oedd sicrhau bod y Cynllun Partneriaeth presennol a Chylch Gorchwyl y grŵp hwn yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r ffyrdd o weithio.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod swyddogion wedi dosbarthu'r ddwy ddogfen i'r aelodau i'w hystyried, ac i roi cyfle iddynt wneud sylwadau pe dymunent. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan aelodau, ond mae swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried diweddaru'r cynllun, ar y cyd â CLILC, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â ffyrdd presennol y Cyngor Partneriaeth o weithio ac i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Gwahoddodd y Gweinidog unrhyw sylwadau gan aelodau drwy'r ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosibl. Bwriedir dosbarthu fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Partneriaeth yn 2023.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1** – Gwahoddir aelodau i ddarparu unrhyw sylwadau ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol neu Gylch Gorchwyl y Cyngor Partneriaeth i'r ysgrifenyddiaeth cyn gynted â phosibl. Bydd fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Partneriaeth a'r Cylch Gorchwyl yn cael eu dosbarthu, os a phan fydd newidiadau'n cael eu gwneud. |

**Papur Gwyn Etholiadau**

Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar Ddiwygio a Gweinyddu Etholiadau 11 Hydref, ac y bydd yr ymgynghoriad yn para tan 10 Ionawr.

Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y Papur Gwyn yn nodi cam nesaf y diwygiadau i wella mynediad at etholiadau datganoledig a chreu system etholiadol yn yr 21ain ganrif, gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr awtomatig, a Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru. Mae hefyd yn nodi awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffordd y cynhelir adolygiadau etholiadol ac yn gofyn am farn ynghylch a yw tymhorau pum mlynedd awdurdodau lleol yn gweithio ynteu a oedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r tymhorau ddychwelyd i bedair blynedd.

Gwahoddodd y Cwnsler Cyffredinol yr holl swyddogion canlyniadau i weithdy ar y mater hwn ar 15 Tachwedd ac mae'r ddau Weinidog yn awyddus i glywed eu barn am y cynigion o bob rhan o Gymru.

**Newid aelodaeth**

Croesawodd y Gweinidog Dr Neil Wooding, a benodwyd yn ddiweddar yn Gadeirydd CGGC, i Gyngor Partneriaeth Cymru a chyfarfod y bore yma. Mae Dr Neil Wooding yn cymryd lle Peter Davies a roddodd y gorau i fod yn gadeirydd CGGC ar ôl 11 mlynedd ar y Bwrdd ac wyth mlynedd fel cadeirydd yn gynharach eleni. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda Dr Wooding yn y fforwm hwn a nododd ei diolch i Peter Davies am ei waith ar y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolchodd Dr Neil Wooding i'r aelodau a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at fynychu cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Newid yn yr Hinsawdd (eitem sefydlog)**

Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Gymorth CLILC – y newyddion diweddaraf a'r camau nesaf i'w hystyried – Tim Peppin, CLILC

Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem hon gan ddweud bod hon yn wythnos bwysig i'n trafodaeth ar Newid yn yr Hinsawdd gan mai hon yw Wythnos Hinsawdd Cymru. Nododd fod llawer o sefydliadau a chydweithwyr yr aelodau wedi cynnal a chymryd rhan mewn digwyddiadau a thrafodaethau, gan ddangos y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ledled Cymru.

Eglurodd y Gweinidog y bydd yr eitem hon yn cynnwys y diweddariad rheolaidd am waith pwysig y Panel Strategaeth Hinsawdd a rhaglen gymorth CLILC ALI. Bydd eitem 3 yn gyflwyniad gan Bartneriaeth Bensiwn Cymru ar eu camau tuag at ddatgarboneiddio.

Pwysleisiodd y Gweinidog pa mor bwysig yw hi ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd. Mae effeithlonrwydd ynni a diogelwch cyflenwad ynni yn bwysicach nag erioed. Mae gweithredu nawr yn helpu i osgoi materion mwy a hyd yn oed drytach ar gyfer y dyfodol. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i gyflawni sero net.

Soniodd y Gweinidog am y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal ar y llwyfan rhyngwladol yn COP, a bod y mathau hyn o ddigwyddiadau rhyngwladol yn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol, ond hefyd yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r enghreifftiau rhagorol o weithredu ar y cyd ar newid yn yr hinsawdd a wneir yng Nghymru.

Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau y bydd bron i 60% o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni sero net yn gofyn am rywfaint o newid mewn ymddygiad cymdeithasol (yn ôl y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd). Dyna pam yr ymrwymodd Sero Net Cymru i ymgynghori ar strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a gyhoeddwyd ar 20 Hydref, a bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 14 Rhagfyr. Nod y Strategaeth fydd nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i lywio, cefnogi ac annog y cyhoedd i weithredu ar newid yn yr hinsawdd.

Ac yn olaf, nododd y Gweinidog ei fod hefyd yn ddwy flynedd ers sefydlu'r Panel Strategaeth Hinsawdd gan y Cyngor hwn. Dywedodd pa mor falch yw hi o'r gwaith a wnaed dan arweiniad y panel strategaeth hwn. Maent wedi helpu i yrru'r agenda newid yn yr hinsawdd; wedi rhoi dull gweithredu cydgysylltiedig i ni; wedi cefnogi awdurdodau lleol i gydgynhyrchu ymrwymiadau uchelgeisiol yng Nghynllun Sero Net Cymru; ac maent bellach yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hynny yn ogystal â helpu i lunio rhaglen gymorth CLlLC.

**Gwahoddodd y Gweinidog Tim Peppin (TP) o CLlLC** i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Cymorth y Newid yn yr Hinsawdd CLlLC.

Aeth TP drwy brif bwyntiau Papur CLlLC: *Y Diweddaraf am Newid yn yr Hinsawdd* a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau nodedig ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth, yn gyffredinol ac yn benodol i waith y Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Cymorth Pontio ac Adfer CLlLC.

Dywedodd TP fod yr Uchel Lys ym mis Gorffennaf wedi dyfarnu nad yw strategaeth sero net Llywodraeth y DU ar gyfer y DU gyfan yn cydymffurfio â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Canfu nad yw'n darparu digon o fanylion ynghylch sut y cyrhaeddir y targed o sero net erbyn 2050 ar gyfer y DU yn gyffredinol.

Rhannodd TP y newyddion hefyd bod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Gorffennaf a ddaeth i'r casgliad ei fod yn 'ansicr' os bydd y sector cyhoeddus yn gallu cyrraedd ei darged newid yn yr hinsawdd o sero net erbyn 2030. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith mai dim ond 2 o'r 48 o gyrff cyhoeddus roedd wedi siarad â nhw oedd wedi cyfrifo faint y byddai'n ei gostio.

Nododd TP rai o effeithiau newid yn yr hinsawdd a welwyd dros y 6 mis diwethaf, gan gynnwys tywydd poeth eithriadol yr haf, nifer yr achosion o danau glaswellt difrifol ledled Cymru, a soniodd hefyd fod tornado wedi cael ei adrodd ym Mhowys y diwrnod blaenorol. Roedd pob un o'r rhain yn tynnu sylw at bwysigrwydd y ffordd rydym yn addasu ac yn dod yn fwy parod i ddelio ag amgylchiadau o'r fath wrth iddynt godi.

Ar ddechrau COP 27, mae'r pwyslais wedi bod ar sicrhau nad oes unrhyw fath o gwympo'n ôl i'r hen drefn ac anghofio am yr ymrwymiadau rhyngwladol a wnaed yn COP 26 yn Glasgow y llynedd. Mae ffocws parhaus ar sicrhau 'trosglwyddiad cyfiawn' ac mae'n galw am gyllid 'colli a difrodi', gyda gwledydd cyfoethocach yn cael eu hannog i helpu gwledydd datblygedig i ddelio â'r problemau y maent eisoes yn eu hwynebu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Roedd ail ran y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Panel Strategaeth Hinsawdd. Sefydlwyd y panel hwn a'r rhaglen gymorth gan Gyngor Partneriaeth Cymru ddwy flynedd yn ôl ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, CLILC, undebau llafur a chynghorwyr.

Bydd y panel yn goruchwylio adolygiad o gynnydd cynghorau (y cytunwyd arno yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth), comisiynwyd Miller Research gan CLILC a bydd yn ymgymryd â'r gwaith yn ystod y misoedd nesaf. Gofynnir i bob un o'r 22 cyngor sut maent wedi bwrw ymlaen â'u gwaith ar ddatgarboneiddio dros y deunaw mis diwethaf. Gofynnir i gynghorau hefyd sut maent yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag addasu, fel yr amlinellir yn Asesiad Risg Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (CCC y DU) dros Gymru. Bydd gwaith Miller yn galluogi asesiad mwy manwl o weithgarwch cynghorau a bydd yn dilyn yr un fethodoleg â CCC y DU i sicrhau cysondeb a dull gweithredu cynhwysfawr. Disgwylir y canlyniadau y gwanwyn nesaf.

Aeth TP yn ei flaen i bwysleisio nad yw'r panel bob amser yn ymwneud ag adolygu, mae ganddo ddull gweithredu strategol ac mae'n darparu cefnogaeth a chyngor i awdurdodau i sbarduno cysondeb ac i sicrhau manteision cydweithio. Er enghraifft, cyn bo hir bydd y panel yn dosbarthu pecyn caffael sy'n dod ag amrywiaeth o adnoddau at ei gilydd i helpu i wneud dewisiadau cynaliadwy a fydd yn lleihau allyriadau, ynghyd â chynlluniau ar gyfer cymorth i ymgysylltu â chadwyni cyflenwi. Bydd hyn yn helpu awdurdodau i brynu mewn swmp gyda'i gilydd ar eitemau fel cerbydau trydan, er mwyn gallu arbed arian wrth leihau allyriadau. Croesawyd cyfraniad Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru i gefnogi dull gweithredu llywodraeth gyfan.

Nododd TP fod y Cynghorydd Andrew Morgan wedi cwrdd yn ddiweddar â'r holl arweinwyr a hyrwyddwyr newid yn yr hinsawdd i bwysleisio pwysigrwydd targed 2030 ac i drafod yr argyfwng hinsawdd a natur, ond yn enwedig cynllunio ynni, sy'n gam cadarnhaol ond yn her yr un mor fawr.

Cyflwynwyd Judith Cole (JC), aelod Llywodraeth Cymru o'r Panel Strategaeth Hinsawdd, a chanmolodd CLILC a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol am ddod ag ynni i'r 'blaen a chanol' ar faterion newid yn yr hinsawdd. Rhannodd JC y trafodaethau a gynhaliodd gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a chroesawodd y gwaith ar y fflyd cerbydau trydan, gan gynnwys awdurdodau sy'n cynhyrchu eu hynni eu hunain i gefnogi'r fflyd.

Diolchodd y Gweinidog i Tim a Judith am y diweddariadau ar waith y Panel Strategaeth Hinsawdd a diolchodd i bawb a oedd yn ymwneud â chyflawni'r gwaith.

Cyfeiriodd y Gweinidog at bwysigrwydd parhau i fonitro cynnydd a'r adroddiadau ail flwyddyn sydd i ddod.

Gwahoddodd y Gweinidog gwestiynau gan aelodau, a gododd y materion canlynol:

- Cwestiynu'r effaith y gall Cymru ei chael fel gwlad fach mewn amgylchedd byd-eang.
- Pwysigrwydd cynnwys y pedwar heddlu yng ngwaith y Panel Strategaeth Hinsawdd.
- Maint yr her, ochr yn ochr â'r holl flaenoriaethau a heriau eraill a wynebir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.
- Llwyddiant y gynhadledd 'Lleoedd a Natur' a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a ddenodd 240 o bobl, a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys y rhai sy'n gweithio agosaf at gymunedau yn y gwaith hwn.

Caeodd y Gweinidog yr eitem drwy bwysleisio, er mai gwlad fach yw Cymru, y gallwn barhau i ddarparu arweiniad a rhannu ein llwyddiannau ein hunain ag eraill, gan ddangos tystiolaeth o bwysigrwydd cydweithio. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn awyddus i glywed mwy am sut y gallai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn rhan o'r gwaith hwn.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 2** – Alun Michael a Tim Peppin i edrych ar gyfraniad yr Heddlu at y Grŵp Strategaeth Hinsawdd |
| **Cam Gweithredu 3** Ysgrifenyddiaeth i drefnu eitem agenda ar gyfer y dyfodol, i gael siaradwr o CCC y DU |

| |
|---|
| **Eitem 2 ar yr Agenda: Partneriaeth Pensiwn Cymru**<br><br>Diweddariad ar gynnydd a chynlluniau i ddatgarboneiddio pensiynau Llywodraeth Leol |

Roedd yr eitem hon yn cynnwys cyflwyniad gan y Cynghorydd Chris Weaver ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru ar y gwaith hyd yma i ddatgarboneiddio cynlluniau pensiwn llywodraeth leol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Weaver gyfres o sleidiau a oedd yn disgrifio taith y Bartneriaeth tuag at leihau carbon.

Disgrifiodd y Cynghorydd Weaver strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth a'r polisïau sy'n sail i sut mae'r grŵp yn gweithio. Aeth ymlaen i ddisgrifio egwyddorion ymgysylltu'r grŵp a'r gweithgarwch ymgysylltu roedd wedi'i wneud.

**Cynnydd o ran datgarboneiddio hyd yma**

- Buddsoddiadau Goddefol – mae cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru wedi trosglwyddo'r rhan fwyaf o'u buddsoddiadau goddefol i gronfeydd tracio carbon isel.
- Strategaeth datgarboneiddio arloesol ar gyfer yr Is-gronfeydd Cyfleoedd Byd-eang a Chyfleoedd y DU – gan leihau dwysedd carbon tua 25%.
- Monitro datgarboneiddio yn erbyn meincnod.

Aeth y Cynghorydd Weaver yn ei flaen i ddisgrifio beth sydd ar y gweill ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru a sut mae hefyd yn parhau i ddatblygu mecanweithiau adrodd pellach, yn ogystal â'r gyfres o adroddiadau chwarterol a blynyddol sydd eisoes ar waith fel yr amlinellir yn y cyflwyniad.

Daeth y Cynghorydd Weaver i'r casgliad drwy gadarnhau bod hon yn daith barhaus tuag at nodau Sero Net, gan sicrhau bod diogelu pensiynau aelodau ar flaen eu meddyliau.

Diolchodd y Gweinidog i'r Cynghorydd Weaver am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a chroesawodd sylwadau neu gwestiynau gan yr aelodau.

Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Mynegiadau o ddiolch i'r Cynghorydd Weaver ac eraill sy'n ymwneud â Phartneriaeth Pensiwn Cymru am arwain y gwaith pwysig hwn.
- Trafodaeth ynghylch ymgysylltu a'r angen i gyfathrebu â'r cyhoedd yn ehangach yn y dyfodol.
- Yr heriau sy'n gysylltiedig â'r elw ar gyllid, pan nad yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cynaliadwy bob amser yn cael enillion cymharol ar fuddsoddiadau mewn tanwyddau ffosil. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr angen i symud yn araf ac yn ofalus, gan ganolbwyntio ar yr hirdymor a buddsoddi yn y pethau iawn ar yr un pryd ag amddiffyn pensiynau aelodau.

## Eitem 3 ar yr Agenda: Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill i gefnogi dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, Tom Smithson (Swyddog Llywodraeth Cymru)

Rhoddodd Tom Smithson (TS) gyflwyniad byr i'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru sydd, fel cysyniad, wedi bod o gwmpas ers degawdau. Mae'r term yn ceisio disgrifio'r ffordd Gymreig o weithio ac mae'n berthnasol yn fwriadol nid yn unig i'r sector cyhoeddus, ond i bawb sy'n ymwneud â chynllunio neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn Llywodraeth Cymru, mae ffocws newydd ar hyn, gan ddysgu o sut roedd gwasanaethau'n ymateb ar y cyd i bandemig Covid-19.

Disgrifiodd TS rywfaint o gefndir gwaith blaenorol ar Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys drwy adolygiadau a rhaglenni diwygio fel Adolygiad Beecham

(2006), Simpson (2011), a Williams (2014), pob un â rhaglen waith ynghlwm. Datblygwyd llawer drwy'r adolygiadau hynny, ond roeddent yn gyfyngedig o ran amser. Hefyd, yng Nghymru mae deddfwriaeth sydd wedi ategu at rywfaint o'r gwaith hwn, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sydd ar y gweill.

Mae nifer o yrwyr wedi bod y tu ôl i adfywio'r gwaith hwn, ac sy'n parhau i fod y tu ôl i'r gwaith hwn, fel pandemig Covid-19, yr argyfwng ariannol presennol, ymateb Cymru i'r rhyfel yn yr Wcráin a'r argyfwng costau byw.

Y ffocws nawr yw ffurfioli'r dull gweithredu a datblygu cyfres o egwyddorion, gan edrych ar gyfleoedd lle mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu Arweinyddiaeth drwy Academi Wales, rhaglenni cyfnewid, cysgodi a chyfnewidiadau tymor byr, rhannu gwasanaethau, llwyfannau cyffredin ac adnoddau cyfun.

Gwahoddodd y Gweinidog gwestiynau a sylwadau, a oedd yn cynnwys:

- Bod y ffocws yn gryf ar ddyheadau polisi cenedlaethol ond yn wan wrth ystyried dyheadau ar lefel leol, gan bryderu'n benodol am y diffyg cyfeiriad at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn ffocws y gwaith hwn.
- Croesawyd ailfywiogi cysyniad Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a chydnabuwyd bod yr amseru'n ddefnyddiol o ystyried heriau'r gyllideb o gyllid cyhoeddus cyfyngedig, tra bo'r galw ar wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu. Apêl gref dros gynnwys y sector Cynghorau Tref a Chymuned yn y gwaith hwn.
- Brwdfrydedd dros wasanaeth cyhoeddus mwy athraidd, gyda mwy o gyfleoedd i symud rhwng sefydliadau. Hefyd, mae'n galonogol bod Academi Wales yn gweithio i adnabod a meithrin ein harweinwyr, yn ogystal â gweithio fel rhan o'r cytundeb cydweithredu gyda Phlaid Cymru i weld a oes achos ac awydd ymysg gwasanaethau cyhoeddus am ysgol genedlaethol ar gyfer llywodraeth yng Nghymru. Mae hefyd yn bwysig mapio'r hyn sydd eisoes ar waith, ac ystyried a oes ffyrdd gwell o lunio cysondeb gyda sefydliadau academaidd.
- Mae hon yn agenda gyffrous, a allai helpu i fynd i'r afael â darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd weithiau'n dameidiog ledled Cymru.

Fe wnaeth TS grynhoi trwy gadarnhau mai dechrau'r sgwrs yw hyn, ac nid oes bwriad i ddisodli'r strwythurau partneriaeth presennol, ond nodi'r ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes gan grwpiau o'r fath.

Diolchodd y Gweinidog i Tom a dywedodd wrth yr aelodau fod Tom yn bwriadu estyn allan i gael sgyrsiau ehangach ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys trafodaethau pellach gydag aelodau'r Cyngor Partneriaeth.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Argyfwng Costau Byw (eitem sefydlog)

Dan arweiniad y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Croesawyd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gan y Gweinidog i arwain yr eitem costau byw.

Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod yn ddiolchgar am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Partneriaeth am yr argyfwng costau byw a dechreuodd drwy ddiolch i'r aelodau am y bartneriaeth a'r cydweithio sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod wedi cwrdd â'r Cynghorydd Anthony Hunt yr wythnos flaenorol yn ei rôl fel Llefarydd Cyllid CLILC a'u bod, gyda'i gilydd, wedi edrych ar yr arferion gorau i gefnogi pobl drwy'r cynllun 'Hawlio yr hyn sy'n ddyledus i chi' i annog pobl i sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys cynllun cymorth tanwydd y gaeaf. Roedd eu trafodaeth wedi canolbwyntio ar yr holl ffyrdd yr oedd Awdurdodau Lleol yn llwyddo i gael arian i bobl oedd â hawl i'w gael.

Pwysleisiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bwysigrwydd y dull a ddefnyddiwyd i gyflawni Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru. Drwy waith caled parhaus llywodraeth leol, roedd dros 230,000 o daliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Tachwedd (wedi'u hagor ar 26 Medi), gyda dros hanner yr aelwydydd cymwys yn hawlio'r cymorth o £200. Mae digwyddiad dosbarthu taflenni wedi'i drefnu hefyd, sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, felly'n ceisio targedu'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Eleni, dosbarthwyd £1.6 biliwn o gymorth drwy raglenni sy'n diogelu aelwydydd difreintiedig drwy roi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod wedi cynnal y drydedd Uwchgynhadledd Trechu Tlodi a Chostau Byw ar 10 Rhagfyr, gyda dros 150 o gyfranogwyr o'n sefydliadau partner fel Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth a National Energy Action. Mae Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru yn cwrdd bob wythnos dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog. Aeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ei blaen i ddiolch i awdurdodau lleol a'r holl bartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, am y gwaith maent yn ei wneud ar fannau cynnes. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y gronfa o £1 miliwn wedi'i dosbarthu'n gyflym gan fod ymateb enfawr wedi'i gael gan y trydydd sector, eglwysi, mosgau a chymunedau, gan gyflwyno cynigion llawn dychymyg.

O ran tlodi bwyd, mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi dosbarthu mwy o barseli bwyd brys nag erioed o'r blaen ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £4.9m i helpu gyda thlodi bwyd a meithrin gwytnwch drwy gefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda sefydliadau eraill yn lleol, i ddatblygu a chryfhau partneriaethau bwyd sy'n helpu i feithrin gwytnwch bwyd. Mae hyn yn cynnwys £1.5m i gefnogi banciau bwyd i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw am gymorth bwyd brys.

Daeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ben drwy ddweud ei bod yn awyddus i barhau i glywed gan bartneriaid am yr hyn maent yn ei wneud, a sut y gall Llywodraeth Cymru eu cefnogi. Cadarnhaodd ei bod hi a Gweinidogion eraill

Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau'n rheolaidd i Lywodraeth y DU am ragor o gefnogaeth i deuluoedd.

Rhannodd y Cynghorydd Anthony Hunt ei ddiolch i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a dywedodd ei fod o'r farn bod hyn yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth, gan nodi ei ddiolch i dimau refeniw a budd-daliadau'r awdurdodau lleol sydd wedi cyflawni cymaint o'r gwaith hwn.

Cydnabu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y gwaith a wnaed gan y timau hynny ac estynnodd ei diolch hefyd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a oedd yn digwydd rhwng yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd a'r trydydd sector i ddarparu cefnogaeth ac i annog pobl i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo.

Diolchodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'r aelodau am y drafodaeth.

## Eitem 5 ar yr Agenda: Gweithio mewn partneriaeth o fewn Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Dan arweiniad Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem hon a oedd wedi'i chynnwys ar gais Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Alun Michael, yn canolbwyntio ar weithio mewn Partneriaeth ym maes Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Darparodd Alun Michael (AM) bapur yn dwyn y teitl *Ethos Gwaith Partneriaeth yng Nghymru* i gefnogi'r drafodaeth.

Dywedodd AM fod y papur yn dangos ymrwymiad a chyfraniad plismona yng Nghymru i wireddu'r ethos un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Aeth yn ei flaen i ddatgan pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru. Roedd yn falch o glywed cyfeiriad yn gynharach at y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a oedd yn enghraifft o'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ymrwymo i sicrhau'r un canlyniad i gael Cymru wrth-hiliol.

Soniodd AM am y gwaith partneriaeth yng Nghymru a oedd yn cynnwys Gweinidogion ac Aelodau eraill o'r Senedd wrth ddiffinio sut beth fyddai amgylchedd datganoledig ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae cysylltiadau ar lefel leol â llywodraeth leol yn hanfodol er mwyn i'r gwaith partneriaeth fod yn effeithiol, ac mae'n bwysig parhau i gryfhau'r cysylltiadau hynny. Mae cydweithio'n golygu gwneud pethau'n well, nid dim ond gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae cysylltedd yn hollbwysig.

Aeth AC ymlaen i ddweud bod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn dangos llawer o waith arloesol, gan gynnwys mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, gwella plismona yn y gymdogaeth, gan gynnwys drwy gyfraniad pwysig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a thrwy raglen ysgolion Cymru.

Crynhodd AM drwy ddweud mai bwriad y papur oedd dangos cryfder gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru, gyda'r Heddlu yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid eraill i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn fwy effeithiol byth.

Cytunodd y Gweinidog ar bwysigrwydd pŵer gweithio mewn partneriaeth fel hyn.

Roedd sylwadau'r aelodau'n cynnwys:

- Y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i bobl allu cysylltu â'r heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond mae'n bwysig cofio'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- Pwysigrwydd plismona cymunedol a'r cyswllt ag aelodau o'r cyhoedd. Un enghraifft a roddwyd oedd y rheini mewn argyfwng iechyd meddwl a'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma, gyda hyfforddiant ar y cyd a rhwydweithiau ar y cyd ar gyfer uwchgyfeirio sgyrsiau am unigolion.
- Y cysylltiad mwyaf pwerus yw'r cysylltiad ar lefel leol rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r cynghorydd lleol, sydd y mwyaf tebygol o ddeall y pryderon a'r sefyllfa. Mae gwaith Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymwneud nid yn unig â chyfathrebu â'r gymuned, ond hefyd â gwrando ar y gymuned a helpu'r gymuned i ddatrys ei phroblemau ei hun.
- Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma o ran helpu i ddeall i ba raddau y mae profiadau a thrawma yn arwain at drais a phroblemau mewn addysg a ffyrdd o ddelio â phroblemau. Mae AM yn trafod â chanolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch sut y gallwn sicrhau ein bod yn parhau i adnewyddu'r math hwnnw o waith, gyda chysylltiadau cryf â'r uned trais ac atal.
- Adnewyddu'r system 101 dan ystyriaeth. Mae'r system dan bwysau aruthrol ac mae angen canolbwyntio'n benodol ar wella'r system yng Nghymru.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 4** – Cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a Dull sy'n seiliedig ar Drawma ar agenda Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol. |
| **Cam Gweithredu 5** – Ystyried y fforwm mwyaf priodol i fwrw ymlaen â thrafodaethau ar sut i wella'r system 101 yng Nghymru (boed hynny drwy'r Cyngor Partneriaeth, fforwm arall neu drwy swyddogion y tu allan i'r cyfarfod?). |

**Sylwadau clo**

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu cyfraniadau a chadarnhaodd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 2 Mawrth 2023.